**<u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 14eg Mai 2024 am 7.30pm yn Neuadd Felinfach</u>**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Melinda Williams (Cadeirydd), Johnny Davies, Gerwyn Owen, Lyn Williams, Haf Hughes, Glyn Davies, Alan Henson, Daniel Evans. Ceris Jones, Y Cynghorydd Sir.

1. **YMDDIHEURIADAU** Y Cyng**.** Hywel Ifans, Lynford Thomas Harry Williams.
2. **PERSONOL**
   Dymunwyd yn dda i'r Cyng Johnny Davies a Harry Williams ill dau wedi bod yn yr ysbyty'n ddiweddar ac i'r Cyng. Lynford Thomas sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Estynwyd cydymdemlad â'r Cyng. Alan Henson ar golli cefnder.
3. **DATGELU BUDDION PERSONOL - Dim i'w datgelu**
4. **CADARNHAU COFNODION 09/04/2024**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Lyn Williams a derbyniwyd yn unfrydol.
5. **MATERION YN CODI**

   **6.iv. Ymgynghoriad Ffiniau Ceredigion.** Anfonwyd ymateb ar ran y Cyngor a derbyniwyd cadarnhad eu bod wedi ei dderbyn,

   12 c. **Gorsaf Bleidleisio Cribyn.** Yn dilyn sgwrs gyda Glynis Davies o'r Cyngor Sir, cafwyd cadarnhad mai dros dro oedd symud y Gorsaf Bleidleisio o Ysgol Cribyn i Neuadd Felinfach.
6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

   Mae cyfarfod cyhoeddus i'w drefnu gan Dolen Teifi i drafod y posibilrwydd o gynnal Bws Cymunedol i'r ardal. Gobeithir cael diweddariad ar sefyllfa'r bocsus blodau y tu fas i Hafod Brynog yn y cyfarfod nesaf.

**7. CYLLID**

I. Tal y Clerc mis Ebrill **£**213.57
II. Tâl Gwyn Jones, Archwilydd Mewnol £150.00
III. Zurich Insurance £705.35
IV. Costau Clerc Awst 23 – Mawrth 24 £68.97

8. **ADRODDIAD PWYLLGOR RHANBARTH UN LLAIS CYMRU 15/04/2024**
Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Daniel Evans. Trafodywd y sefyllfa ynglŷn â Bwcabus. Hefyd trafodwyd y diffyg cyfathrebu rhwng y Cyngor Sir â'r Cynghorau Tref a Chymuned. Gobeithir estyn gwahoddiad I'r Prif Weithredwr i drafod hyn yn y cyfarfod rhanbarth nesaf. Nodwyd hefyd bod angen yswiriant ar gynghorwyr wrth wneud gwaith yn y gymuned ar ran y Cyngor. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn edrych ar bolisi yswiriant y Cyngor.

9. **CYNLLUNIO – Dim i'w drafod**

10. **GOHEBIAETH – Dim i'w cyflwyno**

11. **UNRHYW FATER ARALL**

a. **Bocs Blodau Temple Bar. Penderfynwyd s**ymud y bocs yn nes at Tan-y-Bryn. Bydd y Cyng. Daniel Evans yn ymweld â'r safle i weld ble sydd orau iddo gael ei leoli.
b. **Arwydd Cribyn**. Nid yw'r arwydd wedi ei ail-osod o gyfeiriad Temple Bar. **Penderfynwyd** ar gais y Cyng. Lyn Williams i gysylltu â'r Sir unwaith eto.
c. **Hewl Troedyrhiw i Gribyn**. Nododd Y Cyng. Gerwyn Owen bod yr hewl yn llawn tyllau**. Penderfynwyd** cysylltu â'r Sir.
ch. Soniodd y Cadeirydd am y 'slurry' sydd yn rhedeg o gyfeiriad Cefn Ystrad lawr heibio'r tai yn Ystrad Aeron. Mae'r drewdod yn afiach ac y mae hefyd yn erydu eiddo. **Gofynnwyd i'r Cyng. Sir** i gysylltu ag Adran yr Amgylchedd i ymchwilio i'r mater ar sail Iechyd y Cyhoedd.

12. **DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF**
11eg Mehefin, 2024 yn Neuadd Dihewyd